RHESTR WIRIO / FFURFLEN MANYLION DOGFENNAU ERAILL
OTHER DOCUMENTS INFORMATION SHEET / CHECKLIST

Teitl y Ddogfen:	GWEITHDREFN DEFNYDDIO TGCH - DYSGWYR	
Y Math o Ddogfen:	Gweithdrefn	
Perchennog y Ddogfen:	Aidan Sheil	
Uwch Gyfarwyddwr â Chyfrifoldeb:	Sharon Bowker	
Pwrpas:	Lluniwyd y ddogfen hon fel arweiniad i ddysgwyr a staff a chynnig gwybodaeth ar gyfleusterau TGCh sydd ar gael i ddysgwyr ac i wneud dysgwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth ddefnyddio systemau TGCh yng Ngrŵp Llandrillo Menai.	
Cylch Adolygu:	2 flynedd	
Rhestr Wirio i'w Chymeradwyo (cyfrifoldeb y Perchennog):	I'w weithredu gan:	Dyddiad:
• Y drafft cyntaf wedi'i uwchlwytho i Borth y Grŵp ar gyfer ymgynghoriad (ELD)	31/10/2023	
• Y drafft cyntaf wedi'i anfon i'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol ar gyfer dwy wythnos o ymgynghoriad cychwynnol (AAH)	31/10/2023	
• Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Tîm Strategol	18/09/2023	
• Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol (os yw hyn yn berthnasol)	07/12/2023	
• Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd (SHE) (os yw hyn yn berthnasol)	N/A	
• Cymeradwyaeth yr undebau yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol / SHE	DO	
• Cyfieithu'r Polisi a'i uwchlwytho i Borth y Grŵp	13/11/2023	

DATGANIAD

Lluniwyd y ddogfen hon fel arweiniad i ddysgwyr a staff a chynnig gwybodaeth ar gyfleusterau TGCh sydd ar gael i ddysgwyr ac i wneud dysgwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth ddefnyddio systemau TGCh yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Mae'r ddogfen hon yn rhan o fframwaith o bolisïau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Grŵp. Mae TGCh (Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu) yn cynnwys pob cyfleuster cyfrifiadur, rhwydwaith a thechnoleg ym mhob un o colegau'r Grŵp. Adolygir y ddogfen hon bob dwy flynedd, neu'n amlach os bydd gofyn, yn unol ag unrhyw newidiadau yn y Grŵp.

CYFFREDINOL

Dangosir ymwadiad ar bob cyfrifiadur rhwydwaith fel a ganlyn:

Darperir cyfrifon ar gyfer gwaith cwrs y coleg yn unig, ac fel y nodir yn yr ymwadiad, drwy fewngofnodi i'r peiriant mae'r dysgwyr yn cytuno y gall unrhyw weithgaredd ar y system gael ei fonitro.

Mae'n rhaid i ddysgwyr :

- **Sicrhau eu bod yn gwisgo eu cerdyn adnabod gyda'r laniard bob amser tra'u bod ar gampws y coleg**
- **Sicrhau eu bod yn allgofnodi o'r system wrth adael eu cyfrifiadur**
- **Sicrhau nad oes neb arall yn gwybod eu cyfrinair, ni ddylent roi eu cyfrinair i unrhyw un, a pheidio â gadael i unrhyw un arall ddefnyddio eu cyfrif rhwydwaith am unrhyw reswm**
- **Gwneud pob ymdrech rhesymol i sicrhau bod eu mynediad i'r rhwydwaith yn ddiogel, ac adrodd ar unrhyw achos o dorri neu amheuaeth o dorri diogelwch i Wasanaethau TGCh yn syth**

Grŵp Llandrillo Menai

CYFRIF RHWYDWAITH A STORFA DDATA

Bydd tiwtor y cwrs yn rhannu manylion mewngofnodi a chyfrineiriau. Bydd cyfrineiriau myfyrwyr yn cael eu pennu'n ganolog ac ni fydd modd eu newid oni bai y gofynnir i Ddesg Gymorth Gwasanaethau TGCh (ym Mloc Dinerth ar safle Llandrillo-yn-Rhos, est 1460). Pe bai myfyriwr yn anghofio ei gyfrinair, fe all ofyn amdano wrth ddangos ei gerdyn adnabod i diwtor y cwrs, aelod o staff yn y gweithdy TG neu Wasanaethau TGCh.

Bydd gan ddysgwyr sydd â chyfrifon rhwydwaith unigol storfa ddata o 500mb yn ddiofyn yn ogystal â swm diderfyn ar Google Drive. Bydd modd i diwtor y dysgwr wneud cais i gynyddu hyn os bydd angen.

Gwelir y storfa hon yn 'My Computer' fel gyriant **h:** - nid oes gan unrhyw un arall fynediad i'r ardal hon, a dyma lle dylid arbed pob darn o waith. Mae ffolder o'r enw **'docs'** a ffolder o'r enw **'config'** ar bob gyriant '**h:**' dysgwr - mae angen y ffolderi hyn ar y system ac ni ddylid newid eu henw neu eu dileu oherwydd bydd hyn yn atal y rhaglenni rhag rhedeg. Bydd nifer o raglenni yn cadw gwaith yn ddiofyn yn y ffolder h:\docs ond gall staff hefyd greu ffolderi ychwanegol i gadw trefn ar eu gwaith.

Ni ddylid cadw gwaith ar yriant **c:** oherwydd bydd yn cael ei golli pan fydd y defnyddiwr yn allgofnodi o'r rhwydwaith. Ni ddylid ychwaith gadw gwaith yn uniongyrchol ar gyfryngau cludadwy fel disgiau hyblyg neu gofion bach USB - dylid ei gadw ar yriant h: y rhwydwaith yn gyntaf ac yna ei gopïo i'r dyfeisiau hyn.

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn defnyddio Moodle a Google Classroom i weithredu ei Amgylched Dysgu Rhithwir (ADRh/VLE). Bydd y dysgwyr yn cael mynediad i'r cyfleuster hwn gan diwtor(iaid) y cwrs.

Cedwir cyfrifon a data dysgwyr am 12 mis, os na fydd y rhain wedi cael eu defnyddio o fewn cyfnod o 12 mis yna byddant yn cael eu dileu.

EBOST

Dyma fydd cyfeiriad e-bost allanol y dysgwr rhifadnabodydysgwr@gllm.ac.uk

Gall dysgwyr ennyn mynediad i'w cyfrif e-bost yn y coleg drwy ddefnyddio'r eicon 'GLLM Email' yn y ffolder 'Programs', ac yn allanol drwy ddefnyddio'r URL a ganlyn:

mail.gllm.ac.uk

Hefyd, bydd modd iddynt ddilyn y ddolen ar wefan y coleg ar gyfer e-bost dysgwyr.

Pe bai dysgwr yn anghofio cyfrinair ei gyfrif e-bost yna gall ei ailosod drwy ofyn i'w tiwtor gysylltu â Desg Gymorth Gwasanaethau TGCh.

Ar gyfer pob ymholiad yn ymwneud â chyfrif dylai dysgwyr ddangos eu cerdyn adnabod.

Grŵp Llandrillo Menai

MYNEDIAD I'R RHYNGRWYD

Darperir mynediad i'r rhyngrwyd i wneud gwaith cwrs y coleg yn bennaf. Caiff pob mynediad i'r rhyngrwyd ei fonitro a chaiff gwefannau a ystyrir yn amhriodol eu blocio. Os bydd dysgwr yn teimlo bod gwefan wedi'i blocio'n anghywir yna bydd modd iddo/iddi wneud cais am fynediad i Wasanaethau TGCh drwy eu tiwtor.

ARGRAFFU A NWYDDAU TRAUL

Rhaid i ddysgwyr fod yn gyfrifol o safbwynt yr amgylchedd: felly dylid defnyddio cyfleusterau rhagolwg argraffu ar y sgrin, defnyddio cyfleusterau argraffu pan fydd angen yn unig ac osgoi argraffu nifer o gopïau.

Mae cyfleuster monitro argraffu o'r enw Papercut yn monitro ac yn cofnodi'r holl argraffu sy'n digwydd ar rwydwaith y Grŵp. Darperir cyfleusterau argraffu at ddibenion academaidd y coleg yn unig ac nid ar gyfer defnydd personol.

Dyrennir gwerth £30 o gredyd argraffu i fyfyrwyr ym mis Medi a gwerth £30 pellach o gredyd ym mis Ionawr a mis Ebrill. Ni fydd modd i ddysgwyr argraffu os fydd eu balans yn negyddol, ac os nad oes ganddynt ddigon o gredyd i argraffu bydd neges yn ymddangos yn egluro hyn.

Gall dysgwyr brynu credydau argraffu ychwanegol yn swyddfeydd cyllid y Coleg ac mewn meysydd staff eraill a gytunwyd arnynt.

Mae modd i diwtoriaid y cwrs hefyd ofyn fod gan ddysgwyr unigol neu grwpiau o ddysgwyr gredydau argraffu ychwanegol os bydd angen.

CYFRIFOLDEBAU AT Y CYFRIF

Camddefnyddio E-bost
Nid yw polisi'r Grŵp yn caniatáu'r hyn a ganlyn wrth ddefnyddio'r system e-bost:

- Defnyddio'r system e-bost pan fydd aelod staff yn gofyn iddynt beidio â gwneud hyn
- Anfon negeseuon e-bost lluosog (Un e-bost i nifer o unigolion neu restrau dosbarthu)
- Anfon negeseuon e-bost sarhaus neu fygythiol
- Anfon negeseuon e-bost a allai ddwyn anfri ar unrhyw un o golegau'r Grŵp
- Dosbarthu graffeg a allai beri tramgwydd fel atodiadau
- Dosbarthu gemau a mathau eraill o feddalwedd fel atodiadau
- Defnyddio cyfrifon e-bost pobl eraill, neu geisio defnyddio cyfrifon e-bost pobl eraill, naill ai drwy brocsi neu drwy gael gafael ar eu cyfrineiriau
- Anfon gormod o negeseuon e-bost personol
- Unrhyw gamddefnydd arall nad yw wedi'i restru

Camddefnyddio mynediad i'r rhyngrwyd
Nid yw polisi'r Grŵp yn caniatáu'r hyn a ganlyn wrth ddefnyddio'r Rhyngrwyd:

- Defnyddio gormod ar y we ar gyfer defnydd personol

- Lawrlwytho unrhyw feddalwedd
- Ceisio mynd ar wefannau annymunol neu anawdurdodedig yn fwriadol, er enghraifft pornograffi, trais, hacio a safleoedd eraill sydd wedi'u gwahardd gan Bolisi'r Grŵp
- Ceisio cael mynediad yn fwriadol i safleoedd sy'n cynnwys gwybodaeth y gellir ei disgrifio fel “offer hacio”
- Chwarae gemau neu geisio cynnal gweithgareddau cyfoedion
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol ar-lein, e.e. bwlio, aflonyddu, trolio, rhannu negeseuon neu sylwadau a allai beri tramgwydd
- Unrhyw gamddefnydd arall nad yw wedi'i restru

Camddefnyddio cyfleusterau meddalwedd, systemau, caledwedd a rhwydwaith

Nid yw polisi'r Grŵp yn caniatáu’r hyn a ganlyn wrth ddefnyddio unrhyw un o gyfleusterau TGCh y Grŵp:

- Defnyddio neu geisio defnyddio meddalwedd, systemau neu galedwedd didrwydded
- Gosod neu geisio gosod unrhyw feddalwedd, systemau neu galedwedd
- Copïo neu geisio copïo meddalwedd
- Unrhyw ymgais i ddefnyddio meddalwedd nad yw ar gael yn yr 'Application Launcher'
- Copïo, trosglwyddo neu gyflwyno deunydd sy'n torri hawlfraint person neu sefydliad arall
- Defnyddio cyfleusterau argraffu'r Grŵp ar gyfer diben nad yw'n ymwneud â busnes y coleg
- Defnyddio manylion mewngofnodi unigolion eraill neu geisio defnyddio manylion mewngofnodi unigolion eraill
- Ceisio defnyddio caledwedd neu feddalwedd i gael gwybodaeth am draffig y rhwydwaith, e.e. gwybodaeth am fanylion mewngofnodi a chyfrineiriau defnyddwyr neu eu defnydd o'r rhwydwaith
- Ceisio cael mynediad i unrhyw ddata ar y rhwydwaith heb awdurdod
- Arbed deunydd anaddas ar unrhyw gyfrifiadur neu faes rhwydwaith y coleg e.e. ffeiliau cerddoriaeth, gemau, graffig, lluniau a ffeiliau eraill nad ydynt yn ymwneud â gwaith y coleg
- Creu neu rannu unrhyw ddelweddau, data neu ddeunyddiau annymunol, anllad neu anweddus, neu unrhyw ddata a allai gael ei droi'n ddelweddau neu ddeunyddiau anllad neu anweddus
- Creu neu rannu deunyddiau a fwriadwyd i achosi annifyrrwch, anghyfleustra neu bryder diangen
- Creu neu rannu deunydd difenwol
- Cyflwyno firysau o ffynonellau allanol
- Unrhyw ymgais i ail-ffurfweddu neu newid unrhyw osodiadau meddalwedd ar gyfrifiadur
- Unrhyw ymgais i dynnu dyfeisiadau atodol neu gysylltu dyfeisiadau anawdurdodedig i beiriant neu i rwydwaith y Grŵp, neu unrhyw ymgais i symud neu ddatgysylltu unrhyw offer TGCh sy'n perthyn i'r coleg, e.e. Cyfrifiadur, argraffydd, ffôn
- Llygru neu ddinistrio data defnyddwyr eraill
- Torri preifatrwydd defnyddwyr eraill
- Amharu ar waith defnyddwyr eraill
- Unrhyw gamddefnydd arall nad yw wedi'i restru

Canlyniadau unrhyw achos o gamddefnydd:

Os camddefnyddir cyfleusterau TGCh, fe'i hystyrir yn drosedd ddifrifol yn erbyn cod ymddygiad y Grŵp a bydd yn arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn y dysgwyr dan sylw fel a ganlyn:

- Analluogi cyfrifon wrth ymchwilio i unrhyw achos honedig o gamddefnydd
- Gall camddefnyddio'r system arwain at ddisgyblu dysgwyr yn unol â gweithdrefnau'r Grŵp

Ymdrinnir â defnyddiwr sy'n gweithredu'n groes i'r cytundeb hwn yn unol â chod ymddygiad y Grŵp. Mae sancsiynau yn cynnwys:

- Rhoi cerydd
- Eu tynnu / eu hatal / eu gwahardd o'r Grŵp

CYSYLLTIADAU

Dylid trafod unrhyw ymholiad am gynnwys y ddogfen hon gyda thiwtor y cwrs yn gyntaf.

Dylid trafod unrhyw ymholiad ynghylch defnyddio unrhyw system TGCh, gyda thiwtor y cwrs yn gyntaf. Mae yna gyfleuster gweithdy TG galw ar bob safle hefyd lle mae cymorth ar gael

Dylid rhoi gwybod am unrhyw ymholiadau am gyfrineiriau neu unrhyw achos o dorri diogelwch y rhwydwaith i diwtor y cwrs a/neu Wasanaethau TGCh cyn gynted â phosib.

Grŵp Llandrillo Menai

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Enw'r Polisi neu'r Weithdrefn: GWEITHDREFN DEFNYDDIO TGCH - DYSGWYR
Dyddiad:
Staff/Grwpiau sy'n rhan o'r asesiad: Rheolwr Datblygu Dwyieithrwydd, Panel Iaith

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion o ran tystiolaeth bellach	Canlyniad
Pa effeithiau cadarnhaol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	Mae'r ymwadiad ar rwydwaith y coleg yn ddwyieithog, gyda'r neges Gymraeg yn ymddangos gyntaf gan egluro'n glir i staff eu hawliau a'u cyfrifoldebau.		
Pa effeithiau negyddol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	Ni fydd y polisi hwn yn cael effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg.		
A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn? Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, ac erbyn pryd?	Oes, mae sawl aelod o'r adran TGCh yn siarad Cymraeg. Mae sawl aelod o adrannau'r Llyfrgell a TGCh yn siarad Cymraeg ac yn gallu cynnig cymorth yn y gweithdai TG. Mae siaradwyr Cymraeg ar gael yn yr adran AD hefyd i ddelio ag unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol o ganlyniad i gamddefnyddio systemau TGCh y Grŵp.		
A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio a dderbyniodd Grŵp Llandrillo Menai mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg?	Ydy		
Casgliad	**Addasu'r polisi neu'r weithdrefn**	**Parhau â'r polisi neu'r weithdrefn**	**Atal a diddymu'r polisi neu'r weithdrefn**

Grŵp Llandrillo Menai

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Teitl y Polisi/y Weithdrefn/y Broses: GWEITHDREFN DEFNYDDIO TGCH - DYSGWYR

Y Staff sy'n ymwneud ag Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: Rheolwr Datblygu Dwyieithrwydd, Panel Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion o ran tystiolaeth bellach	Canlyniad
Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses?	Ni fydd unrhyw grwpiau a warchodir dan anfantais yn sgil y polisi hwn.		
Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses?	Bydd pob grŵp a warchodir yn cael budd o'r polisi hwn. Mae'r polisi'n nodi'n glir yr ymddygiad disgwyliedig wrth ddefnyddio systemau TG y coleg, a chanlyniadau eu camddefnyddio.		
A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da?	Ydy– mae'n egluro hawliau dysgwyr mewn modd tryloyw		
A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon?	Nid os cedwir yn llawn at y weithdrefn.		
A oes polisïau eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn?	Nac oes		
Casgliad: Ticiwch un	Addasu'r Polisi	Parhau â'r Polisi a'i brosesu ✔	Atal a Diddymu'r Polisi
Rhestrwch:			
Dyddiad cwblhau'r camau addasu	[]		

Llofnod: Dyddiad: